



Confederasiwn GIG Cymru
Cynghrair Iechyd a Lles

Mewn partneriaeth â'r



Royal College
of Physicians

Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)

Mae popeth yn effeithio ar iechyd

Diweddariad i'n briff Cofiwch y bwlch: beth
sy'n atal newid?

Tachwedd 2022

Mae tlodi'n achosi afiechyd a salwch

Mae Cynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru, mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Meddygon (RCP), yn galw ar lywodraeth Cymru i gymryd camau trawslywodraethol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae angen cynllun cyflawni trawslywodraethol arnom yn nodi'r hyn y mae pob adran yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau iechyd, y ffordd y bydd llwyddiant yn cael ei fesur a'i werthuso, a'r ffordd y gall sefydliadau Cymru gydweithredu i leihau salwch a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

Mae anghydraddoldebau iechyd – gwahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi mewn iechyd a mynediad at ofal iechyd ar draws y boblogaeth, a rhwng grwpiau gwahanol mewn cymdeithas – wedi bod yn broblem ers amser hir, ond mae pandemig COVID-19 a chostau byw cynyddol wedi gwaethygu hyn.

“Nid gwasgfa economaidd dros dro yn unig yw'r argyfwng costau byw presennol: mae'n fater iechyd cyhoeddus hirdymor sy'n effeithio ar y boblogaeth gyfan.”

[Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Dros y misoedd i ddod, mae'r argyfwng costau byw yma'n debygol o waethygu, gan arwain at gynnydd mewn tlodi a salwch, gan wneud mwy o bobl allan o waith a rhoi mwy o straen ar y GIG, gofal cymdeithasol, sefydliadau tai a'r trydydd sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfaddedf ein bod yn wynebu 'argyfwng i'r bobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas'.

“Ni ellir ystyried mynd i'r afael â thlodi fel mater unigol a dyma pam yr ydym yn defnyddio dull hirdymor, ar draws y llywodraeth yng Nghymru.”

[Llywodraeth Cymru](#)

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau ar draws amrywiaeth o feysydd polisi, ond rydym nawr yn annog gweinidogion i sefydlu tasglu trawslywodraethol, o dan arweiniad prif weinidog Cymru, i sbarduno newid yn gyflym ac ar raddfa fawr trwy gynllun gweithredu cenedlaethol, cydgysylltiedig.

Cipolwg

- Mae dros draean o blant yng Nghymru bellach wedi eu dosbarthu i fod yn byw mewn tlodi, mwy nag unrhyw le arall yn y DU. ([Archwilio Cymru](#))
- Rhwng 2017–18 a 2019–20, roedd bron chwarter poblogaeth Cymru (23%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl costau tai. Mae hyn yn debygol o gynyddu. ([Llywodraeth Cymru](#))
- Mae hyd at 45% o aelwydydd yng Nghymru bellach yn debygol o fod yn cael anhawster i gadw'n gynnes ac yn ddiogel gartref, wedi eu dal mewn tlodi tanwydd. Gall cartrefi oer achosi a gwaethygu cyflyrau anadlol, clefydau cardiofasgwlaidd, iechyd meddwl gwael, dementia, hypothermia a phroblemau gyda datblygiad plentyndod.
- Mae 74% o bobl yng Nghymru yn teimlo'n gynyddol bryderus am eu gallu i gadw'n gynnes ac yn iach y gaeaf hwn ac mae 70% yn bwriadu defnyddio llai o wres yn eu cartref oherwydd biliau ynni cynyddol. Dywedodd 11% na fyddent yn gwresogi eu cartref fel y bo angen hyd yn oed pe byddai tywydd oer yn gallu gwneud aelod o'u haelwyd yn anhwylyus neu waethygu cyflwr iechyd. ([Coleg Brenhinol y Meddygon](#))
- Mae 43% o bobl yng Nghymru wedi gweld dirywiad yn eu hiechyd meddwl o ganlyniad i'w sefyllfa ariannol, tra bod 30% wedi gweld eu hiechyd corfforol yn gwaethygu. ([Sefydliad Bevan](#))

Mae gweithlu iach yn golygu economi iach. Gydag anweithgarwch economaidd ar gynnydd, mae angen i ni symud y ffocws o fentrau sy'n cael eu cyflwyno trwy'r GIG ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â ffactorau fel tai gwael, ansawdd bwyd, diogelwch cymunedol, incwm isel, tlodi tanwydd, hiliaeth a gwahaniaethu, cysylltiadau trafnidiaeth gwael a llygredd aer, ac mae angen i ni wneud hyn mewn mewn ffordd sydd wedi ei chydlynu'n genedlaethol, gydag arweiniad gweithredu'n cael ei arwain yn genedlaethol i leihau amrywiadau lleol, cyflwyno asesiadau o effaith ar iechyd a rhannu mesurau perfformiad, a buddsoddiad mewn ataliaeth ar lefel leol.

“Cartrefi oer a gorlawn, addysg wael, troseddu cynyddol, prinder cyfleoedd: ni ellir mynd i'r afael â'r pethau hyn trwy'r gwasanaeth iechyd. Mae'r GIG yn cael ei adael i ddelio â'r canlyniadau – pyliau o asthma dro ar ôl tro am fod plentyn yn byw mewn llety rhent llaith; iselder gweithiwr ffatri 50 oed sydd wedi colli ei swydd oherwydd osteoarthritis gyda sgiliau llythrennedd gwael ac yn cael anhawster yn dod o hyd i swydd arall, felly'n syrthio i mewn i dlodi ac yn wynebu anobaith; person hŷn eiddil heb becyn gofal yn syrthio dro ar ôl tro. Dyma bethau na all meddyginiaeth eu trin.”

Meddyg Teulu, Hydref 2022

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd Cofiwch y bwch: Beth sy'n atal newid?, oedd yn annog Llywodraeth Cymru i gau'r bwch gweithredu ar iechyd a lles ar gyfer oedolion a phlant. Dylai'r llywodraeth:

- cydgrynhoi ymrwymadau i leihau anghydraddoldebau a mapio gweithgareddau presennol ar iechyd cyhoeddus, anghydraddoldebau, lleihau tlodi a nawdd cymdeithasol mewn un cynllun cyflawni i wella atebolrwydd
- rhoi mwy o arweiniad gweithredu cenedlaethol i gyrff cyflawni lleol a chyflwyno rheoliadau asesu'r effaith ar iechyd fel blaenoriaeth
- datblygu set a rennir o fesurau perfformiad sydd yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau a gwella mynediad at ddata cadarn, o ansawdd uchel ar gyfer gwerthuso
- gwella mynediad at raglenni ataliaeth yn seiliedig ar ofal sylfaenol a chymunedol, yn arbennig ar gyfer y rheiny sy'n byw mewn tlodi, a buddsoddi mewn arloesi, yn cynnwys rhaglenni sgrinio, brechlynnau a thechnoleg wisgadwy
- sicrhau bod cyllid yn annog cydweithredu a'i fod yn gysylltiedig â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn ei wneud yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol (BPRhau) a byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGCau) fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Tlodi yw'r her unigol fwyaf sy'n wynebu pob haen o lywodraeth.

Mae effaith tlodi yn bellgyrhaeddol gyda llawer o effeithiau niweidiol. Mae'n amlddimensiynol, yn gymhleth, yn cynyddu ac yn effeithio ar fwy o bobl yng Nghymru, yn ôl Archwilio Cymru, sydd hefyd wedi argymhell ymagwedd genedlaethol gyda chyfres o fesurau perfformiad, targedau ar gyfer lleddfu a mynd i'r afael â thlodi a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd ac adroddiadau cyhoeddus.

"Mae maint yr her a'r gwendidau mewn gwaith presennol yn ei gwneud hi'n anodd i lywodraeth Cymru a llywodraeth leol gyflawni'r newid systemig y mae ei angen i fynd i'r afael â thlodi a'i leddfu. Byddai strategaeth genedlaethol ddiwygiedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyfleu gweledigaeth gyfoes, cyfarwyddo'r broses gyflawni i gefnogi amcanion a sefydlu mesurau priodol i farnu effaith. Byddai strategaeth genedlaethol wedi'i diweddarau yn helpu i osod gweledigaeth strategol gyda disgwyliadau ac uchelgeisiau i'r sector cyhoeddus cyfan eu cyflawni ar y cyd."

Archwilio Cymru

Y straeon y tu ôl i'r ystadegau

Yn y briff hwn rydym wedi casglu straeon sy'n disgrifio'r ffordd y mae sefydliadau ar draws Cymru yn gweithio i leihau tlodi, salwch ac anghydraddoldebau trwy chwalu rhwystrau ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, cyngor ar fudd-daliadau a lles, trafnidiaeth, unigrwydd ac ynysu, newid hinsawdd, llygredd aer a llawer mwy. Darllenwch ymlaen i ddysgu am y straeon y tu ôl i'r ystadegau.

Gweithredu gwaith traws-sector: sut mae sefydliadau ar draws Cymru'n gweithio i leihau tlodi, salwch ac anghydraddoldebau.

Mae'r set yma o astudiaethau achos yn disgrifio'r ffordd y mae sefydliadau ar draws Cymru'n gweithio ar draws ffiniau a chyfyngiadau i helpu'r bobl fwyaf aogred i niwed yn ein cymdeithas. Dylid annog a chefnogi'r gwaith traws-sector yma gan lywodraeth Cymru gyda chynllun gweithredu trawslywodraethol.

"Mae arbenigedd [yn gwella iechyd y boblogaeth] yn bodoli ar draws amrywiaeth o bobl – yn arbennig profiad bywyd cymunedau, mewnwelediadau pwerus y sector gwirfoddol, sgiliau technegol timau iechyd cyhoeddus, a mewnwelediadau gan dimau data a deallusrwydd ar draws amrywiaeth o sefydliadau partner."

Cronfa'r Brenin

Tai ac iechyd

Mae prosiect enghreifftiol Bevan wedi ei leoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn datblygu adnodd bwrdd iechyd ar-lein gyda gwybodaeth am dai, llwybrau atgyfeirio traws-sector ac offer rheoli perfformiad neilltuol. Y nod yw gweithio gyda chydweithwyr ar draws Cymru i rannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu ac arfer da, gan arwain at ganllaw arfer da cenedlaethol ar iechyd a thai.

Hawliau cyflogaeth a budd-daliadau lles

Mae prosiect Pontio yn cynnig cymorth cyfeillio a chymorth un i un i bobl sy'n byw ac wedi eu heffeithio gan sglerosis ymledol (MS) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyngor am hawliau cyflogaeth a budd-daliadau lles, yn cynnwys hawliadau Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a Lwfans Cymorth Cyflogaeth (ESA), ffyrdd o reoli MS a sut i gael mynediad at driniaethau, gwasanaethau gofal cymdeithasol a thai.

Ymarfer corff ac iechyd

Mae mynediad at ofod awyr agored yn hanfodol i iechyd da. Nod menter meddygfa parkrun yw codi ymwybyddiaeth o parkrun ymysg meddygon teulu a staff meddygfeydd, gan eu hannog i gymryd rhan a chyfeirio cleifion/gofalwyr at ddigwyddiadau parkrun, cefnogi twf presgripsiynu cymdeithasol a helpu i ddatblygu cymunedau lleol integredig a chefnogol sydd yn canolbwyntio ar les. Mae grwpiau Run Talk Run Bae Caerdydd a Llansamlet yn hyrwyddo rhedeg a siarad fel ffordd o gynorthwyo iechyd meddwl.

Cymorth ar ôl y pandemig i bobl agored i niwed

Mae Yn ôl i Fwyd Cymunedol gan Gwelliant Cymru yn cefnogi pobl sy'n cael anhawster i adael eu cartrefi a mynd yn ôl i'r gymuned ers y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys pobl â dementia, pobl oedd yn gwarchod yn flaenorol neu bobl agored i niwed. Dechreuodd y fenter yn Aberpennar ac mae wedi cael ei chreu mewn partneriaeth â phobl leol, yr heddlu, asiantaeth gwirfoddolwyr lleol, trafniadaeth leol, awdurdod lleol, y trydydd sector, iechyd a gofal cymdeithasol, siopau a busnesau, gyda gwybodaeth yn cael ei darparu i siopau ac amwynderau lleol i'w helpu i gefnogi pobl.

Rôl hamdden a diwylliant mewn lles

Mae Confederasiwn GIG Cymru a Community Leisure UK (Cymru) wedi amlygu cyfraniad ymddiriedolaethau elusennol i iechyd a lles pobl yng Nghymru trwy gasglu astudiaethau achos, yn cynnwys y rhaglen Escape Pain yn Nghaerdydd, therapi atgofion mewn cartrefi gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ioga i fenywod sydd yn cael anhawsterau gyda'r menopos yn Abertawe, a phrosiect darllen yn Sir y Fflint.

Cyngor ariannol i bobl sydd wedi colli golwg

Mae llinell gynghori RNIB Cymru yn cynorthwyo pobl ddall a rhannol ddall i hawlio budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae cynghorwyr budd-daliadau lles yn cynnal gwiriad budd-daliadau llawn ac yn cynorthwyo pobl sydd wedi colli golwg i hawlio'r budd-daliadau y gallant fod yn colli allan arnynt. Mae cynghorwyr hefyd yn helpu pobl ddall a rhannol ddall i herio penderfyniad yn ymwneud â budd-dâl os teimlir y dylent dderbyn mwy. Mae RNIB Cymru hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â hawliau budd-daliadau, lwfans treth a chredyd pensiwn person dall. Maent wedi creu taflen ffeithiau newydd am gymorth gyda biliau ynni ac am grantiau cymorth costau byw.

Amlygu tlodi tanwydd a bwyd

Trwy dimau cymorth i denantiaid, mae cymdeithasau tai yn dosbarthu talebau banciau bwyd i'r rheiny sydd mewn angen. Yn ogystal, mae llawer o aelodau [Tai Cymunedol Cymru](#) yn cynorthwyo banciau bwyd gyda rhoddion ariannol. Mae [Cymdeithas Tai Newydd](#) yn cynnal cynllun peilot o brosiect gyda'r nod o wneud bwyd yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bob cartref yn ardal y Fro. Mae [Cartrefi Conwy](#) yn ceisio annog bwyta'n iach, tyfu bwyd a choginio trwy gyflwyno sesiynau addysg coginio. Mae [Adra](#) yn cefnogi'r caffï Bwyd, sydd yn cydlynu dosbarthiad banc bwyd yn Bangor ac yn dosbarthu bwyd gwastraff o archfarchnadoedd. Mae [Grŵp Cynefin](#), [Adra](#) a [Chyngor Sir Ynys Môn](#) wedi cyd-ariannu 'wardeniaid ynni' i roi cyngor i denantiaid ar newid cyflenwyr a thariffau ynni. Mae'r fenter ar y cyd hon wedi arwain at ryw £140,000 o arbedion a chymorth, sydd yn dangos gwerth cyfuno adnoddau i gael yr effaith fwyaf posibl.

Anghenion holistaidd cleifion cancer

Mae Gofal Cancer Tenovus yn rhoi cyngor ar fudd-daliadau i bobl sydd wedi eu heffeithio gan ganser ac mae wedi gweld cynnydd yn y cleifion sydd yn cael eu cyfeirio am gyngor ariannol a'u gwasanaeth cwnsela. Mae tua 40% o'r bobl hynny wedi cael diagnosis o ganser terfynol. Mewn ymateb i anghydraddoldebau mynychder, cyfraddau goroesi a marwolaethau cancer yr ysgyfaint, mae'r elusen wedi cyhoeddi [Tackling inequalities: lung cancer](#), sydd yn galw am arweinyddiaeth a buddsoddiad mewn gwasanaeth sgrinio cancer yr ysgyfaint, cyfeirio gwell i wasanaethau rhoi'r gorau i smygu, a thargedu ymdrechion tuag at yr ardaloedd a'r cymunedau hynny lle mae'r angen mwyaf.

Cymorth cymheiriaid iechyd menywod

Mae Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW) yn rhoi cymorth cymheiriaid ac eriolaeth i fenywod a phobl sydd wedi eu pennu'n fenywod ar eu genedigaeth sydd yn anabl a/neu'n byw gyda phroblemau iechyd hirdymor. Mae sawl aelod o gymuned ar-lein yr elusen yn profi caledi ariannol cynyddol a dirywiad yn eu lles. Mae FTWW yn eu helpu i gymryd rhan mewn prosiectau fel [Iechyd Menywod Cymru](#) – FTWW, sy'n gwella hyder, yn lleihau ynysu ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd hanesyddol.

Y celfyddydau ac iechyd

Mae'r Cwtsh Creadigol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn gyfres o adnoddau ar-lein hwyliog ac ysgogol wedi eu creu gan artistiaid i gefnogi'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru wrth iddynt geisio gwella o bwysau dwys gweithio trwy gydol pandemig. Mae Confederasiwn GIG Cymru yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i wella lles ymysg staff iechyd a gofal. Mae Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru (WAHWN) wedi gwneud amrywiaeth eang o astudiaethau achos ar gael, yn cynnwys cARTrefu sy'n cefnogi lles preswylwyr cartrefi gofal trwy weithgareddau creadigol.

Lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol Cymru ac ymchwilwyr Futures Literacy (FLiNT) wedi gweithio gyda chymunedau Cymru sy'n cael eu tangynrychioli fwyaf i greu polisi'r argyfwng hinsawdd a natur. Gan ddefnyddio gweithgareddau, gweithdai a chystadlaethau dweud straeon wedi eu harwain gan gymeriadau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr rannu'r ffordd y mae Cymru'r dyfodol gyda newid hinsawdd yn edrych ac yn teimlo iddyn nhw. Fe wnaeth ddatgelu'r ffordd rhyng-gysylltiedig yr oedd y cyfranogwyr yn gweld yr argyfyngau hinsawdd a natur, ynghyd â'u hamgylchedd lleol a'u gofod gwyrdd. Rhannodd llawer eu pryder o gael eu gadael ar ôl gan anghydraddoldebau trafnidiaeth hefyd.

Hyb gwybodaeth costau byw

Mae Cyngor Sir Powys wedi lansio hyb gwybodaeth gyda chyngor a chefnogaeth ynghylch ymdrin â chostau byw. Mae'r cyngor wedi gweithio gyda sefydliadau partner lleol i ddod ag amrywiaeth eang o wybodaeth ynghyd mewn un lle i sicrhau bod pobl yn gwybod pa gymorth sydd eisoes ar gael a sut i gael gafael arno. Mae'r cyngor hefyd yn creu rhwydwaith o leoedd cynnes ar draws Powys.

Cynorthwyo pobl sy'n byw gydag anabledd dysgu

Mae tîm yn cynnwys staff o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) a Chyngor Sir y Fflint wedi lansio menter newydd yn Sir y Fflint i gynorthwyo pobl ag anabledd dysgu, sydd yn byw yn eu cartrefi eu hunain, sydd angen cael meddyginiaeth wedi ei gweinyddu trwy diwb fwydo gastrostomi. Mae'r fenter yn rhoi cymorth addysg a hyfforddiant i staff gofal weinyddu meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol trwy diwbiau gastrostomi. Mae hyn yn helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol gartref ac yn cyflwyno llai o gyfyngiadau, gan ddarparu ansawdd bywyd gwell a rhoi amser i nyrsys weld mwy o gleifion. Mae'r tîm yn rhannu canlyniadau'r fenter i hyrwyddo'r model gofal gyda'r nod o'i weithredu ar draws gogledd Cymru.

Ymgyrch yma i helpu

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid y sector cyhoeddus i rannu negeseuon allweddol yn ymwneud â'r cymorth costau byw sydd ar gael i bobl yng Nghymru trwy'r ymgyrch 'Yma i helpu'. Mae'r ymgyrch yn cynnwys gwybodaeth ynghlch sut i gael mynediad at gymorth a chan bwy, a'r ffordd y gall pobl helpu pobl eraill yn eu cymuned i gael mynediad at gymorth sydd ar gael mewn ardaloedd, fel costau gofal plant, cyllid, biliau trydan a phrydau ysgol.

Tlodi, tai ac iechyd ymysg pobl hŷn

Mae gwasanaethau 'ysbyty i gartref iachach' yn cynorthwyo'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol trwy fynd i'r afael a risgiau diogelwch yn y cartref, rhwystrau i fyw'n annibynnol, a thlodi tanwydd. Mae'r gwasanaethau hyn, a ariennir gan Gofal a Thrwsio Cymru, yn cynorthwyo pobl hŷn sydd yn byw gyda nam ar y synhwyrau a/neu ddementia, a goroeswyr strôc; yn cynorthwyo pobl hŷn ac agored i niwed gyda materion fel tlodi tanwydd, effeithlonrwydd ynni a'r agenda cartrefi cynnes; ac yn cydweithredu ar ymgyrchoedd yn ymwneud ag atal syrthio a pharatoi ar gyfer y gaeaf.

Cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n iach

Mae sefydliadau Age Connects ar draws Cymru yn gweithredu ac yn ariannu amrywiaeth eang o brosiectau wedi eu dylunio i leihau'r anghydraddoldebau sy'n effeithio ar bobl hŷn, yn cynnwys gwasanaethau 'vaxi taxi' i fynd â phobl hŷn i apwyntiadau brechlyn COVID-19, cyngor ac eiriolaeth ar fudd-daliadau lles, ariannu gofal cymdeithasol a thlodi tanwydd, canolfannau dydd, gweithwyr cymorth ac allgymorth cymunedol i'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan ddementia, cynlluniau cyfeillio a gwirfoddoli, gwasanaethau torri ewinedd a phodiatreg.

Hyb cymunedol Cynon Linc

Mae Cynon Linc yn hyb cymunedol bywiog yng nghanol Cwm Cynon. Yn flaenorol, roedd yn ganolfan gofal dydd i bobl hŷn oedd yn cael ei redeg gan y cyngor, ond cymerodd Age Connects Morgannwg ofal dros yr adeilad fel trosglwyddiad asedau yn 2018 a sicrhau £2.8 miliwn o gyllid i drawsnewid y ganolfan yn hyb integredig, ar draws y cenedlaethau sy'n gweithredu fel menter gymdeithasol ac yn codi arian trwy rent, llogi ystafelloedd, gwerthiannau'r bwyty, digwyddiadau a chodi arian. Ceir practis meddyg teulu, cymorth iechyd meddwl, cymorth digartrefedd, hyb gwybodaeth, caffï menter gymdeithasol, gofal plant cyn-ysgol, clwb ieuenctid, dosbarthiadau ffitrwydd a lles a grwpiau cymdeithasol i ofalwyr, ynghyd â neuadd dderbyniadau mawr ar gyfer digwyddiadau, partiön a chynadleddau.

Ynglŷn â Chynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru

Nid yw iechyd yn fater annibynnol.

Mae angen i ni gyd chwarae ein rhan yn datblygu gwasanaeth iechyd sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae Cynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru yn cynnwys 70 a mwy o sefydliadau iechyd a gofal o golegau brenhinol, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gofal cymdeithasol, a chafodd ei sefydlu yn 2015.

Cafodd ei ymgynnull gan Gonffederasiwn GIG Cymru, a'i alw'n Fforwm Polisi yn flaenorol. Datblygwyd argymhellion wrth baratoi ar gyfer etholiad 2016 ac etholiadau'r Senedd yn 2021. Ym mis Ebrill 2021, fe wnaethom gyhoeddi Gwneud y gwahaniaeth, oedd yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i:

- gyhoeddi strategaeth draws-lywodraethol uchelgeisiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau
- buddsoddi mewn ataliaeth hirdymor ar draws pob sector
- gweithio mewn partneriaeth â phobl a chymunedau i newid bywydau er gwell.

Roedd y papur hwn yn dilyn llythyr agored i brif weinidog Cymru ac arweinwyr y gwrthbleidiau yn y Senedd ym mis Chwefror 2021, yn galw am strategaeth draws-lywodraethol ar anghydraddoldebau iechyd.

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd Cofiwch y bwloch: Beth sy'n atal newid?, oedd yn annog Llywodraeth Cymru i gau'r bwloch gweithredu ar iechyd a lles ar gyfer oedolion a phlant.

[@WelshConfed](#)

www.nhsconfed.org/HAWA

[@RCPWales](#)

www.rcp.ac.uk/wales

[#EverythingAffectsHealth](#)

1st Floor
8 Heol y Gadeirlan
Caerdyff CF11 9LJ

02920 349 850
www.welshconfed.org
@WelshConfed

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar fformat amgen,
ebostiwch info@welshnhscconfed.org

© Conffederasiwn y GIG 2022. Gallwch gopïo neu ddsbarthu'r
gwaith hwn, ond mae'n rhaid i chi roi cydnabyddiaeth i'r awdur,
ni allwch ei ddefnyddio at ddibenion masnachol, ac ni allwch
newid, trawsnewid na datblygu'r gwaith.

Rhif elusen gofrestredig 1090329